

Defnyddir y term 'clefydau rhewfryn' i ddisgrifio clefydau sy'n datblygu'n araf a phan fo mwy o anifeiliaid yn dioddef nag sy'n dangos arwyddion. Mae'n bosib taw dim ond crib y rhewfryn yw'r defaid hynny sy'n dangos arwyddion, ond bydd gwedd y defaid eraill mewn diadelloedd heintiedig yn wael ar y cyfan.

### Mae 5 clefyd rhewfryn :

- **Caseous Lymphadenitis (CLA)**
- **Ovine Johne's Disease (OJD)**
- **Ovine Pulmonary Adenomatosis (OPA/Jaagsiekte)**
- **Maedi Visna (MV)**
- **Boomer Disease (BD)**

### Arwyddion o glefydau rhewfryn

- Fel mae'r enw 'clefyd rhewfryn' yn awgrymu, yn aml ni fydd difrifoldeb y clefyd yn cael ei sylweddoli. Am bob anifail sy'n amlwg wedi'i heintio, bydd y ddiadell yn cynnwys sawl anifail sydd yn dioddef ond heb ddangos symptomau amlwg.
- Yn glinigol, mae cyflwyniad unrhyw glefyd rhewfryn yn ysgafn, ond gall gynnwys y canlynol:
  - Nychdod cronig
  - Mamogiaid yn tan-berfformio
  - Mamogiaid yn marw heb reswm amlwg.

## Clefyd Johne mewn Defaid (OJD)

Fel arfer, mae modd adnabod Clefyd Johne mewn defaid pan fo anifeiliaid yn nychu a phan fo sgôr cyflwr corff y mamogiaid yn isel. Fe'i hachosir gan heintiad bacterol.

### Trosglwyddiad Clefyd Johne

Achosir Clefyd Johne gan y bacteriwm mewn dom, llaeth a cholostrwm – a gall oroesi am gyfnod hir yn yr amgylchedd. Fel arfer bydd defaid yn codi'r heintiad o'r dom yn ystod misoedd cyntaf eu bywydau neu o laeth mamogiaid a gafodd eu heintio.

### Arwyddion Clefyd Johne

Mae nychdod yn y mamogiaid hŷn (3–4 blwydd oed) yn arwydd o Glefyd Johne, a gall rhai defaid heintiedig ddatblygu “gên botel” pan fo hylif yn cronni o dan yr ên. Mae'n bwysig gwneud diagnosis cywir oherwydd gall “gên botel” fod yn arwydd o lyngyr yr afu.

### Profion Clefyd Johne

Mae gwneud profion ar gyfer y clefyd hwn yn gallu bod yn dipyn o her. Gall fod yn gyfnod hwyr y clefyd cyn i brofion gwaed i chwilio am wrthgyrff droi'n bositif. Mae modd cyfuno dom sawl dafad i'w brofi fel rhan o raglen sgrinio i asesu statws diadell.

### Trin Clefyd Johne

Nid oes unrhyw driniaeth effeithiol ar gyfer Clefyd Johne mewn Defaid. Gall eich milfeddyg roi presgripsiwn am frechlyn wedi'i drwyddedu yn y DG os yw o'r farn y gallai fod yn ddefnyddiol i reoli'r sefyllfa mewn diadell unigol. Mae cynllun achredu gwirfoddol ar gael drwy Gynlluniau Iechyd Premiwm SRUC ar gyfer Defaid a Geifr. Mae'n golygu sgrinio gwaed, llaeth a dom a rhaid bod gan y fferm gynllun iechyd ar waith sy'n rheoli Clefyd Johne.

## **Clefyd Y Gororau (BD) (sydd hefyd â'r enw 'clefyd y siglwr blewog')**

Achosir y clefyd pan fydd y ffetws yn cael ei heintio yn y cyfnod beichiogrwydd cynnar. Mae'n perthyn yn agos i Ysgothi Fiol Gwartheg (BVD). Os yw'r defaid yn cyd-bori â gwartheg, dylech ystyried fod perygl i'r defaid ddioddef o BD.

### **Trosglwyddiad BD**

Pan fo mamogiaid ymatebol yn cael ei heintio yng nghyfnod cynnar beichiogrwydd, bydd y firws yn croesi'r brych ac yn meddiannu'r ffetws.

### **Arwyddion BD**

Nid yw'r famog yn arddangos unrhyw glefyd, ond mae'r ffetws wedi'i heintio a gall farw a chael ei amsugno, neu gael ei erthylu neu fod yn farw-anedig. Bydd rhai ffetysau heintiedig yn cael eu geni'n fyw ac yn ymddangos yn normal, ond byddant yn barhaol heintus ac yn heintio'r ddiadell yn barhaus. Mewn achosion eraill, bydd difrod difrifol i'r ymennydd a bydd diffyg ar dyfiant y gwlan. Os felly, mae'r ŵyn yn sigledig ac mae ganddyn nhw gotiau bewog; dyna pam y'u gelwir yn 'ŵyn y siglwr blewog'.

### **Profion BD**

Mae modd profi am y clefyd mewn sawl ffordd:

Mamogiaid:

- Eich milfeddyg yn anfon defnydd wedi'i erthylu i labordy
- Profion gwaed ar famogiaid gwag adeg sganio i chwilio am wrthgyrff a allai ddatgelu'r clefyd

Ŵyn:

- Profion gwrthgyrff gwaed ELISA i chwilio am arwydd o'r clefyd, neu brawf antigen ar gyfer statws parhaol heintus.

### **Trin BD**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw frechlyn ar gael a dylid canolbwyntio ar beidio â chaniatáu i'r clefyd gyrraedd eich diadell. Y ffordd fwyaf cyffredin o heintio diadell yw pan fydd anifeiliaid amnewid sydd yn barhaol heintus yn cael eu prynu yn yr hydref. Er mwyn cael gwared â BD o ddiadell, rhaid cael hyd i'r holl anifeiliaid parhaol heintus a'u difa. Mae hyn yn gostus, ond gall BD olygu colledion economaidd y tu hwnt i'r colledion amlwg. Mae hefyd yn amharu ar y system imiwnedd ac felly mae'r anifeiliaid yn fwy tueddol o ddioddef o glefydau eraill.

## **Lymffadenitis Crawnlyd (CLA)**

Gall CLA gael effaith ar y canlynol: nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu cadw ar gyfer magu, nifer carcasau sy'n cael eu gwrthod, gwedd yr anifeiliaid, y cynnyrch llaeth ac atgenhedlu.

### **Trosglwyddiad CLA**

Yn bennaf, bydd CLA yn mynd i mewn i'r corff drwy friwiau neu grafiadau – megis adeg cneifio neu wrth i hyrddod ymladd. Hefyd, gall gael ei drosglwyddo drwy'r awyr neu wrth gael ei lyncu. Mae yn fwy o berygl pan fo'r anifeiliaid o dan do neu mewn llociau i gael eu trafod. Gall yr organeb sy'n achosi CLA oroesi yn yr amgylchedd – gan gynnwys yn y pridd – am dros flwyddyn.

### **Arwyddion CLA**

Crawniadau yn chwarennau lymff yr anifail – yn aml o gwmpas y pen a'r gwddf ond hefyd yn yr organau mewnol fel yr ysgyfaint. Yn ogystal, mae'n bwysig nodi na fydd crawniadau gan yr holl anifeiliaid heintiedig ac felly gall rhai fod â'r clefyd heb ddangos unrhyw arwyddion.

### **Profion CLA**

Mae yna brawf gwaed sy'n canfod y gwrthgorffynnau sy'n achosi CLA.

### **Trin CLA**

Mewn gwirionedd nid oes modd trin CLA mewn defaid yn effeithiol oherwydd mae defnyddio gwrthfotigau dros gyfnod maith fel arfer yn methu cael gwared ar yr holl organebau heintus o'r corff. Ni ddylid agor crawniadau oherwydd mae hynny'n lledaenu'r heintiad i'r amgylchedd ac yn heintio anifeiliaid eraill. Nid oes unrhyw frechlyn trwyddedig yn y DG, ond mae modd mewnforio brechlyn o Awstralia o dan drwydded arbennig.

## Maedi Visna (MV)

Gall defaid o unrhyw oed gael eu heintio, ond am fod yna gyfnod deor hir, ni welir arwyddion fel arfer hyd nes bod anifeiliaid dros ddwy flwydd oed.

### Trosglwyddiad MV

Gall MV gael ei drosglwyddo o'r ysgyfaint pan fo defaid yn rhwbio trwynau ei gilydd, yn ogystal â thrwy yfed llaeth neu golostrwm defaid heintiedig.

### Arwyddion MV

Dim ond cyfran o ddefaid heintiedig fydd yn datblygu arwyddion (25-30%), Gal y bydd defaid heintiedig eraill yn llai cynhyrchiol. Byd y rhain yn heintiedig am oes ac yn dal i ledaenu'r firws.

Mae'r arwyddion clinigol yn cynnwys:

- Niwmonia
- Parlysu cynyddol
- Nychdod
- Arthritis
- Mastitis cronig
- Cynhyrchu llai o laeth a'r ŵyn o'r herwydd yn tyfu'n wael
- Bydd heintiad yn lledaenu'n araf drwy'r ddiadell, ond yn y diwedd bydd yn cael effaith ddifrifol ar iechyd a chynhyrchiant.

### Profion MV

Mae modd sgrinio'r ddiadell ar gyfer MV. Dylai'r mamogiaid a ddewisir i'w profi fod â sgôr cyflwr corff isel a dylent fod dros deirblwydd oed. Gall defaid sy'n cael eu prynu gael eu profi ar gyfer MV neu gellir prynu defaid o ddiadelloedd achrededig sy'n rhydd o MV.

### Trin MV

Ar hyn o bryd nid oes wellhad na brechlyn ar gael.

## Adenomedd yr Ysgyfaint mewn Defaid (OPA/Jaagsiekte)

Mae OPA yn glefyd marwol a achosir gan firws sy'n effeithio ar yr ysgyfaint.

### Trosglwyddiad OPA

Caiff y firws ei ledaenu gan ddiferion resbiradol pan fo defaid yn rhwbio trwynau ei gilydd. Felly, pan fod diadell yn heintiedig, efallai y dylech ystyried osgoi rhoi bwyd mewn cafnau ac wyna yn yr awyr agored er mwyn lleihau'r perygl o ledaenu'r clefyd.

### Arwyddion OPA

Fel arfer gwelir arwyddion clinigol yn y defaid hŷn (3–4 blwydd oed) ond gall defaid o dan flwydd oed ddioddef. Mae arwyddion OPA yn cynnwys:

- Nychdod cronig
- Anhawster yn anadlu
- Marwolaeth sydyn o Pasteurella.

Gall diadelloedd â nifer fawr o famogiaid hŷn tenau fod yn llochesu'r clefyd.

### Profion OPA

Yr unig ffordd o wneud diagnosis yw trwy archwiliad post mortem; fodd bynnag, dangoswyd bod sganio uwchsain yn gallu bod yn ddefnyddiol wrth ganfod defaid heintiedig. Er mwyn cael gwared ag OPA yn llwyr, mae'n werth sganio diadelloedd yn rheolaidd.

### Triniaeth

Am nad oes unrhyw driniaeth na brechlyn, rhaid tynnu'r defaid heintiedig o'r ddiadell.

**Os ydych chi'n amau fod eich diadell yn dioddef o unrhyw un o'r clefydau uchod, cysylltwch â'ch milfeddyg cyn gynted â phosib i drafod yr hyn sydd orau ei wneud.**